**C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 27/06/12**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Louise Hughes, John Brynmor Hughes a Gareth Thomas

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Parchedig Deian Evans (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr)

**Aelod Cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Athrawon:** Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT).

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Huw Edwards, Mr Noel Dyer (UCAC), Mrs Alwen Watkin (ASCL), Parchedig Robert Townsend a Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau Cwmni CYNNAL).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Parchedig Deian Evans.

**2. GAIR O GROESO**

(a) Croesawodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig yr Aelodau newydd i'w cyfarfod cyntaf o CYSAG.

(b) Cyfeiriwyd at waeledd y Cynghorydd Huw Edwards, sydd yn Aelod o'r pwyllgor hwn, ac anfonir dymuniad gorau'r pwyllgor iddo am adferiad llwyr a buan.

**3. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2012-13.**

**4. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Gareth Thomas yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2012-13.**

**5. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2012 fel rhai cywir.

### 6.1 Materion yn codi o'r cofnodion

(a) **Eitem 7 (i) – Llythyr tanysgrifiad i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru**

Diolchodd Mr Rheinallt Thomas i CYSAG Gwynedd am y cyfraniad fel tanysgrifiad i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru.

(b) **Eitem 7 (iii) - Ymddiswyddiad ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag enwebu cynrychiolydd o CYSAG i wasanaethu ar y pwyllgor uchod, eglurwyd yn dilyn yr Etholiad bod y Cyngor wedi mabwysiadu trefn newydd o lywodraethu ar ffurf Cabinet a phwyllgorau craffu o'r newydd. Roedd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi ei ddisodli gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau a phenderfyniad y Pwyllgor hwnnw ydoedd peidio cyfethol aelodau ychwanegol heblaw'r pum aelod sydd gan bleidlais ar faterion addysg yn unig.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. HUNAN ARFARNIADAU

**Cyflwynwyd:** Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog
(ii) Ysgol Friars, Bangor

**(A)** Eglurodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) i'r Aelodau newydd mai'r drefn yn y gorffennol fyddai i CYSAG Gwynedd fonitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd drwy:

- Adolygu adroddiadau arolygu ESTYN
- Dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol
- Cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion / ymgynghorol lleol
- Gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG

Fodd bynnag ni fydd fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ac yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2010 penderfyniad CYSAG ydoedd y byddai'n cyflawni ei gyfrifoldeb statudol drwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r Aelodau.

Tywysodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol yr Aelodau drwy'r ddwy ffurflen hunan arfarniadau uchod gan nodi bod sawl ysgol wedi cael eu hatgoffa o'r angen i anfon eu hunan arfarniadau ond yn anffodus dwy ysgol a gyflwynodd y tro hwn. Derbyniwyd hunan arfarniad Ysgol Gynradd Aberdyfi a oedd rhy hwyr i'w gynnwys gyda'r rhaglen ac fe sicrhawyd y byddir yn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf CYSAG. Gofynnir i ysgolion ymateb i'r tri chwestiwn allweddol canlynol:

**(a)** Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol
**(b)** Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol
(c) Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd.

O safbwynt Ysgol Gynradd Tanygrisiau gwelir bod safon Addysg Grefyddol yn dda gyda'r ysgol yn nodi nifer o resymau i gefnogi'r farn honno. Yn yr yn modd fe noda'r ysgol gyda gonestrwydd y materion hynny sydd angen sylw sef parhau i ddatblygu gwybodaeth yr athrawes o fedrau meddwl er mwyn rhoi mwy o ryddid i'r disgyblion wrth gyflwyno eu darganfyddiadau. Noda'r ysgol nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd addoli ar y cyd.

**(B)** Mewn ymateb i'r uchod, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) na ddylai'r ysgol, yn unol ag arweiniad ESTYN, nodi da mewn perthynas ag ansawdd addoli ar y cyd oni bai bod yr ysgol yn cynnal gwasanaethau i'r disgyblion bob dydd.
(ii) Wrth ddarllen drwy'r adroddiad, ymddengys bod nifer o wallau ieithyddol yn ei gynnwys a hyderir nad yw hyn yn adlewyrchiad yr ysgol tuag at y pwnc.

**(C)** O safbwynt hunan arfarniad Ysgol Uwchradd Friars, noda'r ysgol yng nghyswllt cwestiwn allweddol 1 bod safon Addysg Grefyddol yn dda gan nodi y seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau gyda disgyblion. Yn ogystal nodwyd cynnydd yn y safonau ynghyd ag un mater i gael sylw penodol. Yn yr un modd, nodwyd safon dda yng nghwestiwn allweddol 2 gyda thri mater i gael sylw penodol. Yng nghyd-destun addoli ar y cyd, gwerthfawrogwyd bod gan yr ysgol nodweddion da drwy gynnal gwasanaethau wythnosol gan bob grŵp blwyddyn a phob plentyn yn cael munud i feddwl bob dydd.

**(D)** Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y pwyntiau canlynol:

(i) bod athrawon yn dilyn ac yn cydymffurfio â chanllawiau pendant gan ESTYN wrth gwblhau ffurflenni hunan arfarniadau a thrwy hyn yn gorfod bod yn hollol gywir a didwyll
(ii) bod gan rieni hawl i dynnu plentyn o weithredoedd addoli ar y cyd ond prysurwyd i nodi mai nifer fechan iawn o blant, yn genedlaethol, sydd yn cael eu tynnu allan.
(iii) Bod y Gweinidog dros Addysg wedi gorchymyn bod Addysg Grefyddol yn derbyn Arolwg pwnc y flwyddyn nesaf
(iv) Gofynnwyd a oedd cynnydd wedi ei wneud ynglŷn â darparu taflen enghreifftiol ar safle We CYNNAL er defnydd athrawon i'r dyfodol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr hunan arfarniadau.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) wneud ymholiadau pellach gyda'r Ymgynghorydd Dyniaethau ynglŷn â'r daflen enghreifftiol ar safle We CYNNAL.**

## 7. <u>CYSTADLEUAETH "SPIRITED ARTS"</u>

Croesawyd Mrs Gwenda Healy, Pennaeth Addysg Grefyddol, Ysgol Botwnnog, i gyflwyno cerddi buddugol cystadleuaeth barddoniaeth 2011.

Gosododd Mrs Healy'r cefndir drwy nodi iddi fynychu cwrs gyda Lat Blaylock, Golygydd y cylchgrawn "RE Today" sydd yn darparu adnoddau addysgol ar gyfer y sector uwchradd.

Fel rhan o'r cylchgrawn fe geir cystadleuaeth "Spirited Arts" sydd ar gynnig i ddisgyblion rhwng 5 - 19 oed i greu deunyddiau creadigol drwy luniau, defnyddio celf i gyfleu syniadau crefyddol. Ers oddeutu 2005 fe estynnwyd y gystadleuaeth i gynnwys "Spirited Poetry". Rhoddwyd pwysau fel ysgol i greu strategaeth o fewn cynllun datblygu'r ysgol i ymestyn disgyblion medrus a thalentog ac o fewn y Gyfadran Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol fe wyntyllwyd syniadau ar sut i ymestyn y disgyblion gorau. Felly rhoddwyd cynnig llynedd pryd gosodwyd tasg i ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 yn ogystal â rhai ym Mlwyddyn 7 i ysgrifennu cerdd o dan bum pennawd. Didolwyd y cynhyrchion ac fe anfonwyd 10 ohonynt i'r gystadleuaeth, sef y mwyafrif y gellid eu hanfon yn unol â rheolau'r gystadleuaeth. O'r 10 anfonwyd fe ddaeth dau ddisgybl o Ysgol Botwnnog yn fuddugol sef Tomos Turtle ac Evalyn Usher a oedd yn gamp enfawr i ddod i'r brig ymhlith y 15 cyntaf drwy Brydain a'r 7 arall anfonwyd wedi eu cydnabod o blith yr 50 cyntaf drwy Brydain. Nodwyd y byddai'r ddau ddisgybl wedi bod yn bresennol i ddarllen eu cerddi ond eu bod ar hyn o bryd yn sefyll arholiadau mewnol yn yr ysgol. Felly, bu iddynt lefaru'r cerddi buddugol ar ffurf DVD i'r pwyllgor.

Ymfalchïodd Aelodau CYSAG yn eu llwyddiant ac addawodd y Cadeirydd y byddai'n llongyfarch yr Ysgol ac anfon llythyr personol i'r ddau ddisgybl uchod i'w llongyfarch am eu llwyddiant a'u gwaith ardderchog.

**Penderfynwyd:** **Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

**8. <u>ADDOLI AR Y CYD</u>**

Croesawyd Ms Debbie Humphreys o Ysgol Eifion Wyn sy'n Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol gyda chwmni CYNNAL i gyflwyno canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd.

Ymhelaethodd ar beth ydoedd addoli ar y cyd ystyrlon sef ei fod yn:

- Hybu datblygiad ysbrydol;
- Cyfrannu at ddatblygiad personol;
- Fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan;
- Cysylltu cymuned yr ysgol a'r gymuned leol ehangach;
- Gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Tywyswyd yr Aelodau drwy'r gofynion statudol ynghyd â rhestru'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion. Cyfeiriwyd at nifer o wefannau a llyfrau all athrawon ddefnyddio i gefnogi addoli ar y cyd gyda rhai ohonynt yn darparu deunyddiau Cymraeg. Gwelwyd esiampl o amserlen ar ffurf cynllun addoli ar y cyd tymor hir a fyddai'n ddefnyddiol i athrawon a oedd yn nodi thema, gŵyl neu ddigwyddiad Crefyddol, cyswllt Beiblaidd posib, negeseuon pwysig i'r ysgol ynghyd â digwyddiadau cenedlaethol / lleol o bwys.

Atgoffwyd Aelodau o gyfrifoldebau CYSAGau sef i gefnogi darpariaeth effeithiol Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn yr ysgolion. Dylai pob awdurdod addysg lleol weithio gyda'i CYSAG i adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Addysg Grefyddol ac ystyried gyda'r CYSAG a oes angen gwneud unrhyw newidiadau yn y maes llafur cytûn neu yn y gefnogaeth a gynigir i ysgolion. Yn yr un modd dylai weithio gyda'i CYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac i ystyried unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

I gloi, gofynnwyd i Aelodau os oeddynt o'r farn bod angen gofyn i ysgolion ymgymryd ag unrhyw weithrediad yn wahanol o safbwynt addoli ar y cyd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Trafodwyd y canllawiau yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ei gyfarfod a gynhaliwyd 26 Mehefin 2012 pryd y penderfynwyd cynnwys troednodyn ar dudalen 3 o'r canllawiau i egluro'r gwahaniaeth rhwng addoli ar y cyd a chydaddoli sef y golygir wrth:

- addoli ar y cyd - unrhyw grŵp o bersonau megis plant mewn cyfarfod
- gydaddoli - cyfeirir at gymuned ffydd hefo'i gilydd.

(b) Bod cyfle i Eglwysi drwy Gyhoeddiadau'r Gair i gefnogi ysgolion drwy brynu pecyn o ddeunydd addoliad sydd cyfwerth £120 am oddeutu £60.00 i'w rhoi i ysgolion lleol.

(c) bod Toni Schiavone wedi cynhyrchu deunydd ar gyfer addoli ar y cyd a fyddai, pe caniateir, yn ddeunydd defnyddiol i'w roi ar y Wefan.

(ch) ymfalchïwyd am y gwaith a wneir gan yr Athrawes Ymgynghorol o ystyried bod cymaint o athrawon yn cymhwyso'r dyddiau hyn heb gefndir Addysg Grefyddol

(d) awgrymwyd y byddai'n fuddiol i wahodd a defnyddio darpar Ficer sy'n hanu o Dde Meirionnydd i fynd o amgylch ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd mai mater i Bennaeth Ysgol ac i'r Corff Llywodraethol fyddai gwneud cyswllt gydag arweinyddion Cristnogol.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Athrawes Ymgynghorol am y cyflwyniad.**

**9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd at 30 Mawrth 2012 yng Ngheredigion.

**Adroddwyd:** Y derbyniwyd croeso arbennig iawn yn Aberaeron fel rhan o'r cyfarfod uchod ond nodwyd pryder am brinder cynrychiolwyr o blith yr Aelodau sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn. Yn dechnegol, nodwyd y dylai pob CYSAG anfon Aelod Etholedig y Cyngor, athro / athrawes, ynghyd â chynrychiolydd o'r Eglwysi i'r cyfarfodydd hyn. Apeliwyd ar i CYSAG Gwynedd ystyried hyn i'r dyfodol.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2012 yng Nghonwy, ystyriwyd:

(a) Canllawiau Addoli ar y cyd
(b) Arolwg rhwng cyswllt CYSAG a chymunedau lleol gyda'r canlyniadau i'w disgwyl erbyn diwedd Gorffennaf 2012. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cynnwys eitem ar y mater hwn yng nghyfarfod nesaf CYSAG Gwynedd.
(b) Cyflwyniad positif ar agweddau pobl ifanc gan Leslie Francis ynglyn ag amrywiaeth Grefyddau
(c) cytunwyd i godi tâl aelodaeth i Gymdeithas CYSAGau Cymru i £408

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Cymeradwyo ail-ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru drwy dalu tanysgrifiad o £408 am y flwyddyn 2012/13**

**10. <u>GOHEBIAETH</u>**

**Cyflwynwyd:** **(A)** Cyngor gan Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru mewn ymateb i gais am gynrychiolaeth gan Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain ar CYSAG.

**Adroddwyd:** Gan y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) ar gefndir y cais a dderbyniwyd oddi wrth Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain i enwebu cynrychiolydd i wasanaethu ar CYSAG. Bu i Gymdeithas CYSAGau Cymru dderbyn cyngor cyfreithiol ar y mater hwn ac fe gyfeiriwyd at Adran 390 o Ddeddf Addysg 1996 sydd yn nodi gwybodaeth ddefnyddiol ynglyn â chyfansoddiad cynghorau ymgynghorol. Cyngor Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru ydoedd dilyn y gyfraith fel y cyflwynir yn Adran 390 ynglyn â'r cais.

Yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r ohebiaeth, nododd Aelod bod yr Adran 390 yn nodi'n glir y dylai'r grwpiau cynrychiadol adlewyrchu prif draddodiadau Crefyddol yr ardal. Roedd y gair **Crefyddol** yn ymddangos yn glir yn Adran 390 ac felly byddai cytuno i'r cais yn creu cynsail i'r dyfodol.

Cynigwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd i wrthod y cais yn unol â chanllawiau Adran 390 o Ddeddf Addysg 1996.

Bu i'r Cynghorydd Jean Forsyth atal ei phleidlais.

**Penderfynwyd:** **(a)** **Derbyn a nodi cynnwys yr ohebiaeth.**

**(b)** **Cymeradwyo i wrthod cais Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain i gael enwebu cynrychiolydd i wasanaethu ar CYSAG yn unol â chanllawiau Adran 390 o Ddeddf Addysg 1996.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.40 pm**

**CADEIRYDD**